

CYNGOR CYMDEITHAS CYNWYD

Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 4 Gorffennaf 2017 yn y Neuadd Bentref

Presennol – Stephen Tudor, Huw Evans, Delyth Thomas, Anna Thomas, Nan Jones, Nesta Wivell, Gwen Wynne, Gwyneth Ellis a Mabon ap Gwynfor (Cynghorydd Sir)

Aelodau o'r cyhoedd

Ymddiheuriadau

Clerc y noson

Oherwydd diffyg Clerc cytunodd Gwyneth Ellis gadw cofnodi o'r cyfarfod yma yn unig ac i gwblhau unrhyw waith gweinyddol angenrheidiol oedd angen sylw buan.

Cofnodion 6 Mehefin 2017

Cytunwyd fod pawb wedi derbyn copi o'r cofnodion. Cynigodd Nan Jones fod y cofnodion yn gywir, eiliwyd gan Nesta Wivell ac roedd pawb yn cytuno yn unfrydol.

Trefn cofnodion

Cytunwyd yn unfrydol fod y cofnodion i'w paratoi yn ddwyieithog os yn bosib, ac i'r wasg dderbyn o leiaf copi llawn Cymraeg a chrynodeb yn Saesneg.

Ffurflenni hysbysiad o ddiddordebau

Delyth Thomas wedi ymrwymo i yrru copïau i bawb erbyn y cyfarfod nesaf.

Unllais Cymru

Mae cynrychiolydd o Unllais Cymru am ddod i gyfarfod â'r cyngor ar Orffennaf 12 am 19:30.

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddodd Mabon ap Gwynfor fod deiseb wedi ei chyflwyno i feddygfa teulu Corwen, a fod cyfarfod heddiw (4/7/17) gyda'r Bwrdd Iechyd, ond nad oedd unrhyw newyddion pellach.

Ethol is-Gadeirydd

Etholwyd Huw Evans yn is-Gadeirydd y cyngor. Delyth Thomas wedi ei gynnig, Gwen Wynne wedi eilio, a phawb yn unfryd o blaid.

Penodi Clerc

Cytunwyd yn unfrydol y byddem yn paratoi hysbyseb am swydd clerc, gan gynnwys cyfrifoldeb am y safle we, a'r graddfa tâl. Yn ogystal a manylion cysylltu Gwen Wynne, cytunwyd hefyd i gynnwys cyfeiriad e-bost Huw Evans yn yr hysbyseb. Fe gynigiodd Delyth Thomas baratoi'r hysbyseb.

Tal y Graig a Cof golofn a Pont Felin Uchaf

Mae'r eitemau yma am aros ar yr agenda hyd nes y bydd clerc newydd wedi ei phenodi.

Gyrru trwy'r pentref

Mae Mabon ap Gwynfor wedi cyfarfod â Mark Musgrave. Does dim bwriad na chynllun gan y cyngor sir i newid y system ynysoedd i dawelu traffig. Mae adroddiad yn cael ei baratoi ar gyfer Llandrillo a Chynwyd erbyn dydd Gwener (7/7/17).

Cyfrif Banc

Mae Gwen Wynne, Huw Evans ac Anna Thomas wedi eu dewis i fod yn gyfrifol am arwyddo sieciau. Byddant yn trefnu hyn gyda'r banc.

Safle We

Mae Ian, wnaeth gynllunio'r safle, am siarad hefo'r cyflenwyr i drafod y sefyllfa. Fe roddir gwahoddiad iddo fod yn bresennol yng nghyfarfod mis Medi i gyfleu'r wybodaeth i'r cyngor.

Cyflwr meinciau

Cytunwyd i roi hysbyseb ar hysbysfwrdd y pentref ac ar Facebook i ofyn am gynigion i gynnal a chadw'r meinciau mae'r cyngor yn gyfrifol amdanynt, ac y map a grëwyd gan blant yr ysgol.

SARTH

Mae trefn cofrestru am dai cymdeithasol yn sir Ddinbych wedi newid. Fe roddwn wahoddiad i gynrychiolydd o SARTH (Llwybr Mynediad Sengl i Dai) ddod i gyflwyno'r newidiadau i'r cyngor yng nghyfarfod mis Medi. Mae Delyth Thomas wedi ymgymryd i drefnu hyn.

Gwrych Tŷ Du

Mae gwrych wedi gor-dyfu ac yn rhwystro llwybr i Drem y Foel. Huw Evans wedi ymgymryd i drafod y mater â pherchennog y gwrych.

Ceisiadau Cynllunio

Pen y Bryn, Faerdref, Cynwyd (07/2017/0497) – estyniad i ac atgyweirio bwthyn rhestredig. Y cyngor yn cymeradwyo'r cais, ond yn nodi fod yna gamgymeriad posib yn y cais yn sôn am fythynnod, yn hytrach nag un bwthyn.

Hefyd y cyngor yn unfrydol o blaid gofyn am sicrhad na fydd enw'r bwthyn hanesyddol yma yn cael ei newid.

Materion eraill

Cytunodd y cyngor ein bod yn unfryd am ddiolch yn swyddogol i Jen Williams am ei gwaith ar y potiau blodau, sy'n gyfraniad mor werthfawr i gadw'r pentref yn ddeniadol.